

## Rhif 384 – Rhyddiaith dan 19 oed (ar unrhyw ffurf)

### Thema – Ffiniau

### Beirniad – Manon Steffan Ros

1. Y Ferch o Gaerdydd
2. Derwen
3. Llifogydd

Saith ymgais ddaeth i law, sydd ychydig yn siomedig, efallai- yn enwedig am fod y testun, Ffiniau, yn ddigon agored i roi rhwydd hynt i gystadleuwyr ddilyn eu dychymyg. Yn wir, profodd yr holl bynciau a drafodwyd yn yr ymgesiadau hynny, o ddamweiniau car i ddigartrefedd. Mwynheais bob un o'r ymgeisiadau, a diolch amdanynt.

Soniaf air am y dair ymgais a ddaeth i'r brig.

Stori anarferol am berthynas gymleth tad a mab sydd gan Llifogydd, ac fe'm hudwyd gan y dawn dweud yn fwy na'r stori ei hun. Mae llinellau fel *Gwenodd wên Gymreig* yn dwyllodrus o glyfar, a chefais wefr gwirioneddol o brofi gallu'r awdur yma i drin geiriau.

Dangosir clyfrwch yn arddull a phlot stori Derwen. Mae'n adrodd hanes teulu yn gorfod gadael cartref a gwlad er mwyn eu diogelwch eu hunain, gan groesi'r môr mewn cwch ynghanol nos cyn dod i wlad a thirwedd newydd, anghroesawgar. Mae'r hanes yn un sy'n gyfarwydd i ni oll o'r gwefannau newyddion, ond difais glyfar iawn oedd defnyddio enwau Cymraeg i'r cymeriadau a'r lleoliadau.

Y Ferch o Gaerdydd sy'n dod i'r brig. Stori cymharol syml sydd yma ar un llaw, am berthynas un person gyda wal Berlin. Mae haenau a haenau o ystyron i hwn, a'r arddull yn grefftus ac yn apelgar. Mae'r wal ei hun yn gymeriad cryf, hollbresennol, weithiau'n teimlo fel mam, neu Dduw, neu elyn. Mae sgwennu mewn ffordd mor bersonol am ddigwyddiad hanesyddol yn gamp, a'r Ferch o Gaerdydd yn awdur gwbl naturiol.

Llongyfarchiadau i'r tri a ddaeth i'r brig, ac i weddill y cystadlaewyr.